


# Maniffesto Sustrans Cymru 2021

> Ni fu gweledigaeth Sustrans Cymru ar gyfer Cymru Yfory erioed mor berthnasol. Dychmygwch gymdeithas lle gall pawb gerdded neu feicio yn eu cymdogaethau.

## Buddsoddi mewn teithio diogel ac iach

### Gofyniad 1:

Neilltuo o leiaf 10% o gyfanswm y gyllideb drafnidiaeth ar gyfer teithio llesol, gan gynnwys darpariaeth i awdurdodau lleol gael eu harfogi i gyflawni'r Ddeddf Teithio Llesol a ffrwd gyllid refeniw ar gyfer newid ymddygiad.

### Gofyniad 2:

Creu cronfa gyfalaf ar wahân o £20m bob blwyddyn ar gyfer datblygu a gwella'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (RhBC) i sicrhau ei fod yn gwbl hygyrch i bawb.

## Trafnidiaeth i bawb

### Gofyniad 7:

Blaenoriaethu opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy trwy integreiddio cerdded a beicio yn llawn gyda'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus ehangach, gan sicrhau ei fod yn gwasanaethu pob defnyddiwr yn deg.

### Gofyniad 8:

Sicrhau bod terfynau cyflymder 20mya yn cael eu rhoi ar waith erbyn 2023 fel terfyn cyflymder diofyn ym mhob ardal adeiledig a gwahardd parcio ar y palmant ledled Cymru.

### Gofyniad 9:

Deddfu ar gyfer Deddf Aer Glân yn nhymor cyntaf y llywodraeth.

## Ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol i gerdded a beicio

### Gofyniad 3:

Sicrhau bod gan bob plentyn yng Nghymru fynediad at feic, a hyfforddiant beicio am ddim.

### Gofyniad 4:

Sefydlu rhaglen ar gyfer Strydoedd Ysgol wedi'i ymgorffori mewn cymdogaethau sy'n galluogi plant i deithio'n ôl ac ymlaen i'r ysgol yn annibynnol.

## Mynediad at natur

### Gofyniad 10:

Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i sefydlu Rhaglen Lonydd Gleision Genedlaethol er mwyn darparu gwell mynediad at natur i bawb ledled Cymru.

## Creu Cymru o gymdogaethau 20 munud

### Gofyniad 5:

Helpu awdurdodau lleol i greu trefi a dinasoedd sy'n rhoi pobl yn gyntaf trwy wneud cymdogaethau 20 munud yn egwyddor ganolog mewn cynllunio lleol, polisïau trafnidiaeth, iechyd ac economaidd.

### Gofyniad 6:

Cymhwyso'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy i holl benderfyniadau polisi a buddsoddiad trafnidiaeth a chynllunio i sicrhau bod Cymru yn blaenoriaethu pobl a'u gwasanaethau mynediad, gan leihau dibyniaeth ar geir ar yr un pryd.

## Cyflawni llwyddiant

### Gofyniad 11:

Gwella amrywiaeth y gynrychiolaeth ar y Bwrdd Teithio Llesol a chodi statws y bwrdd i Gomisiwn sy'n gallu dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

### Gofyniad 12:

Gosod targedau heriol ar gyfer teithio llesol a chynnal Arolwg Trafnidiaeth Cenedlaethol o ansawdd uchel bob blwyddyn i werthuso llwyddiant.